# Asesiad Anghenion Hyfforddiant Cymraeg (Mai 2025)

## 1. Maes asesu

Cyflwyno cyrsiau trwyddedu Cymraeg mewn amgylchedd ystafell ddosbarth wyneb yn wyneb ledled Cymru.

## 2. Cefndir

Rhentu Doeth Cymru yw'r corff trwyddedu cenedlaethol a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru i gynorthwyo'r rhai sy'n gosod neu'n rheoli eiddo rhent yng Nghymru i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac mae'n darparu cyngor ar rentu cartrefi diogel ac iach. Rydym hefyd yn prosesu cofrestriadau landlordiaid, yn rhoi trwyddedau ac yn darparu hyfforddiant llawn gwybodaeth a pherthnasol i'r rhai sy'n ymwneud â'r farchnad rhentu ar-lein ac mewn ystafelloedd dosbarth ledled Cymru. Mae Rhentu Doeth Cymru yn gweithredu o ganolfan o fewn Cyngor Caerdydd. Mae awdurdodau lleol ledled Cymru hefyd yn cynorthwyo gyda rhai agweddau ar ddarparu gwasanaethau.

## 3. Gofynion Hyfforddiant

Rhaid i'r rhai sy'n cymryd rhan weithredol mewn rheoli eiddo rhent, fel landlord neu asiant neu weithiwr landlord neu asiant, ymgymryd â hyfforddiant cymeradwy i sicrhau a bodloni gofynion cais am drwydded. Ni ellir cyflwyno cais am drwydded heb dystiolaeth o hyfforddiant a gymeradwywyd gan Rentu Doeth Cymru.

Mae cyrsiau hyfforddiant yn cael eu hysbysebu ar Wefan Rhentu Doeth Cymru Mae'r rhestr cyrsiau yn cynnwys cyrsiau sy'n addas ar gyfer trwyddedau tro cyntaf ac adnewyddu trwyddedau gydag opsiynau gan gynnwys ystafell ddosbarth wyneb yn wyneb, ystafell ddosbarth rhithwir ac ar-lein. Mae'r cyrsiau hyn wedi cael eu cyflwyno yn Gymraeg a Saesneg dros y 10 mlynedd diwethaf ond mae'r cwrs ystafell ddosbarth wyneb yn wyneb Cymraeg bob amser wedi bod yn her i'w lenwi, ac mae wedi dod yn fwyfwy heriol ers Covid a chyflwyno cyrsiau dosbarth rhithwir. Cyflwynwyd y cwrs dosbarth diwethaf ym mis Mawrth 2023.

## 4. Pwrpas yr asesiad hwn

Mae'r asesiad hwn yn nodi'r heriau a brofwyd wrth gyflwyno cyrsiau dosbarth drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn darparu'r dystiolaeth gyfredol a pherthnasol i lywio'r arfer presennol a'r penderfyniadau yn y dyfodol ar ddarpariaeth hyfforddiant.

## 5. Pwy yw ein cwsmeriaid?

Mae'r rhai sy'n mynychu cyrsiau yn landlordiaid, asiantau a'u gweithwyr sydd ag eiddo sy'n cael ei rentu ar denantiaeth ddomestig yng Nghymru.

Isod mae dadansoddiad o ble mae ein cwsmeriaid yn byw:

| Gwlad | Landlordiaid |
|---|---|
| **Lloegr** | 17.1% |
| **Gogledd Iwerddon** | 0.1% |
| **Tu allan i'r DU** | 4.6% |
| **Yr Alban** | 0.3% |
| **Cymru** | 77.9% |

Mae hyn yn dangos gwerth ein cynnig ystafell ddosbarth ar-lein a rhithwir sy'n galluogi cwsmeriaid i gael mynediad at ein hyfforddiant yn Gymraeg a Saesneg o'r tu allan i Gymru.

Isod mae dadansoddiad o'r math o gais ein cwsmeriaid (Papur neu Ar-lein)

| Dewis iaith | Ar-lein | Papur |
|---|---|---|
| Dwyieithog | 99.41% | 0.59% |
| Cymraeg | 99.30% | 0.70% |
| English | 98.73% | 1.27% |

Mae hyn yn dangos bod y rhan fwyaf o'n cwsmeriaid Cymraeg a Saesneg wedi dewis gwneud eu ceisiadau ar-lein yn hytrach nag ar bapur.  Mae hyn yn rhannol oherwydd y gost lai ond mae'n dangos gallu ein cwsmeriaid i ryngweithio â thechnoleg.

Isod ceir dadansoddiad o'n cwsmeriaid Cymraeg o'r 22 awdurdod lleol, sydd wedi mynychu cwrs dosbarth o'r blaen a phryd y bydd eu trwydded i ddod i ben, dros y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn berthnasol gan mai dyma'r bobl fwyaf tebygol o fod eisiau mynychu cwrs dosbarth Cymraeg ac mae'n rhoi proffil ar gyfer pryd y bydd y galw am gwrs yn codi.

| Dyddiad Dod i Ben | Dewis Iaith | Awdurdod |
|---|---|---|
| 06/09/2025 | Cymraeg | Caerdydd |
| 27/04/2026 | Cymraeg | Conwy |
| 2 o bobl dros y flwyddyn nesaf. | | |

Mae'r tabl drosodd yn dangos holl drwyddedau dewis Cymru sy'n dod i ben o fewn y flwyddyn nesaf (waeth a ydynt wedi dangos diddordeb mewn cyrsiau dosbarth o'r blaen ai peidio); mae yna 59.

| Awdurdod | Trwyddedau sy'n dod i ben |
|---|---|
| **Caerdydd** | 8 |
| **Caerfyrddin** | 8 |
| **Ceredigion** | 7 |
| **Conwy** | 4 |
| **Sir Ddinbych** | 2 |
| **Sir y Fflint** | 2 |
| **Gwynedd** | 17 |
| **Ynys Môn** | 4 |
| **Casnewydd** | 1 |
| **Sir Benfro** | 2 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 1 |
| **Abertawe** | 3 |
| **Cyfanswm** | **59** |

Yn nodweddiadol, mae 90% o gyrsiau trwydded landlord yn cael eu cwblhau ar-lein, byddai hyn yn dangos galw posibl gan 6 o bobl yn 2025/26 o bob cwr o Gymru ac ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

## 6. Marchnata a chyfathrebu

Gyda'r holl gyrsiau wedi'u hysbysebu, os yw'r niferoedd sydd wedi'u harchebu ar gyrsiau yn isel, rydym yn targedu negeseuon uniongyrchol at y rhai sydd i fod i adnewyddu eu trwyddedau yn y cyfnod dilynol. Gwneir hyn yn gyson o ran y cyrsiau Cymraeg sy'n cael eu hysbysebu.

## 7. Costau cyrsiau hyfforddiant

Mae Rhentu Doeth Cymru yn  wasanaeth y mae'n rhaid iddo fod yn hunan-ariannu. Nid oes cyllid gan y Cyngor na'r Llywodraeth ar gael i gefnogi'r gwasanaeth.  Felly, mae angen i'r hyfforddiant a ddarperir osod ffioedd i dalu am gost cyflenwi.

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant wyneb yn wyneb yn yr ystafell ddosbarth yn cynnwys yr hyfforddwr, y lleoliad a'r parcio a'r lluniaeth.  Mae hyn yn amrywio o leoliad i leoliad ond ni fydd yn llai na £1500/cwrs.  Y tâl a godir am gwrs ystafell ddosbarth wyneb yn wyneb yw £100, sy'n golygu 15 yw isafswm y nifer o gynrychiolwyr sydd eu hangen i wneud cwrs yn hyfyw.

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant ystafell ddosbarth rhithwir yn cynnwys yr hyfforddwr yn unig. Y gost i Rentu Doeth Cymru yw £600/cwrs. Y tâl a godir ar gyfer cwrs ystafell ddosbarth rithwir trwydded landlord yw £60, sy'n golygu 10 yw isafswm y nifer o gynrychiolwyr sydd eu hangen i wneud cwrs yn ariannol hyfyw.

Oherwydd lefelau galw, mae'r rhan fwyaf o gyrsiau Cymraeg yn cael eu cynnal ar golled (wyneb yn wyneb a rhithwir), fodd bynnag, mae'r golled yn llai arwyddocaol ar gyfer cyrsiau ystafell ddosbarth rhithwir oherwydd bod y gwariant cychwynnol yn llai.

## 8. Y galw am hyfforddiant/cwrs

Mae'r tabl isod yn dangos archebion cyrsiau, a chyrsiau sydd wedi'u canslo, ers mis Tachwedd 2020.

| Cwrs Trwydded Landlord | Nifer sy'n cael ei redeg gan Rentu Doeth Cymru | Wedi'i ganslo oherwydd diffyg archebion | Cyfanswm y Niferoedd a Hyfforddwyd | Mynychwyr ar Gyfartaledd | Cwrs gyda'r Nifer Leiaf | Cwrs gyda'r Nifer Fwyaf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyrsiau Dosbarth Cymraeg | 2 | 5 | 13 | 6.5 | 1 | 12 |
| Rhithwir Gymraeg (o 23/08/2023) | 3 | 0 | 11 | 3.6 | 3 | 4 |
| Cyrsiau Ystafell Ddosbarth Saesneg | 83 | 18 | 854 | 10.2 | 3 | 31 |
| Cyrsiau Rhithwir Saesneg | 39 | 6 | 1,054 | 27 | 14 | 34 |

## 9. Ystyriaethau eraill

Mae recriwtio hyfforddwyr gyda'r wybodaeth a'r sgiliau priodol wedi bod yn anodd dros y blynyddoedd. Ers 2022 rydym wedi caffael siaradwr Cymraeg cymwys gyda'r sgiliau a'r profiad cywir sy'n byw yn Ynys Môn. Gall gyflwyno'n gyson mewn amgylchedd rhithwir ond ni all ymrwymo i deithio ledled Cymru.

## 10. Disgwyliad oes y cynllun / pryd fydd yn cael ei adolygu

Nid yw disgwyl i'r galw am gyrsiau wyneb yn wyneb newid yn y dyfodol agos. Ymhlith y pethau a allai effeithio ar hyn mae - newid i ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU neu

Lywodraeth Cymru sy'n cael effaith sylweddol ar y sector. Nid oes unrhyw beth ar fin digwydd. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ailystyried pe bai newid o'r fath yn cael ei weithredu.

## 11. Cyfrifoldeb am yr asesiad

Uwch dîm rheoli Rhentu Doeth Cymru sy'n gyfrifol am yr asesiad hwn. Cymerir cyngor gan Fwrdd Cynghori Rhentu Doeth Cymru bob chwarter.

## 12. Trefniadau monitro ac asesu.

| **Maes i'w Asesu:** | **Effaith gadarnhaol, niwtral neu andwyol?** | **Rhesymeg** |
|---|---|---|
| Pa effaith mae peidio â chael cyrsiau dosbarth wyneb yn wyneb yn cael eu cael ar ddefnydd o'r Gymraeg, neu drin y Gymraeg ddim yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg | Niwtral (gweler isod) | Mae mwy o ddewis wyneb yn wyneb ar gael pan fo angen cwrs Saesneg oherwydd y lefel uwch o alw ond nid yw hyn yn effeithio ar gynnig rhithwir/ar-lein y Gymraeg. |
| Sut y gellir lliniaru hyn? | Cadarnhaol | Parhau i gynnig opsiynau dosbarth rhithwir ac ar-lein i gwblhau cyrsiau yn Gymraeg gan fod y rhain ar gael i bob ymgeisydd ledled Cymru |

## 13. Casgliad.

Nid oes digon o alw i gynnal cyrsiau ystafell ddosbarth wyneb yn wyneb yn y Gymraeg ar hyn o bryd, er bod y cynnig yn cael ei wneud fel mater o drefn.

Bydd cyrsiau rhithwir yn parhau i gael eu hysbysebu, fel sy'n arfer cyfredol, a bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch a ddylid bwrw ymlaen fesul cwrs, gan ystyried hyfywedd ariannol. Fodd bynnag, bydd y cyrsiau hyn yn parhau i dderbyn cymhorthdal i raddau er mwyn cefnogi darpariaeth iaith Gymraeg ac i gyfyngu ar niwed i enw da'r gwasanaeth.

**Bethan Jones**
**Rheolwr Gweithredol**
**Rhentu Doeth Cymru**

**Mai 2025**